Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Mick Antoniw AS,

y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

8 Chwefror 2024

Annwyl Mick,

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch am eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (y Bil). Trafododd y Pwyllgor eich ymateb ar 7 Chwefror a thynnodd sylw at y ffaith eich bod yn ystyried bod yr argymhellion sy'n ymwneud â chostau Comisiwn y Senedd yn fater i'r Comisiwn.

Yn ystod y ddadl Cyfnod 1 yr wythnos diwethaf, gwnaethoch ddweud bod trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd eisoes wedi dechrau a'ch bod yn rhagweld y byddwch yn darparu ymateb manylach i argymhellion y Pwyllgor maes o law.

Fel yr amlygais yn y ddadl, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil gymryd y prif gyfrifoldeb am gostau. Er fy mod yn croesawu'n fawr fod y gwaith ar hyn eisoes wedi dechrau, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau y byddwch yn gweithio ar y cyd â'r Comisiwn mewn ymateb i'r argymhellion ac yn rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor ar y gwaith hwn cyn trafodion Cyfnod 2.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a Chomisiynydd y Senedd sydd â chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethiant.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.